



Pryfed Peillio *Cymru*
Pollinators *in Wales*



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Gweithredu ar gyfer Beillwyr:

Adolygiad 2013-18 a
Gweithredoedd y Dyfodol



Cynllun Gweithredu ar gyfer Tasglu Pollinwyr

Cynnwys

1. [Y Cefndir](#)
2. [Adolygu 2013-18 - Beth ydyn ni wedi'i wneud - Dathlu'n llwyddiannau](#)
3. [Beth ydyn ni'n mynd i wneud - y dyfodol](#)
4. [Atodiad 1 - Astudiaethau Achos](#)
5. [Atodiad 2 - Crynodeb manwl o'r camau a gymerwyd yn 2013-18](#)

Y Cefndir

Mae pryfed peillio'n elfen hollol sylfaenol o'n bioamrywiaeth. Mae 20% o dir y DU sydd o dan gnydau yn tyfu cnydau sy'n dibynnu ar bryfed peillio ac mae pryfed peillio'n werth dros £690 miliwn y flwyddyn i amaethyddiaeth y DU¹.

Mae yna bryderon cynyddol ynghylch cyflwr ein poblogaethau o bryfed peillio ac am hynny, am y gwasanaethau peillio y maen nhw'n eu cynnig (²Potts *et al.* 2010; Garratt *et al.* 2014³). Fel y rhan fwyaf o fioamrywiaeth, y bygythiad mwyaf i bryfed peillio yw colli cynefin, llygredd amgylcheddol, hinsawdd sy'n newid a rhywogaethau estron (Klein *et al.* 2007; Potts *et al.* 2010; Vanbergen & The Insect Pollinators Initiative 2013).

Mae adnoddau Naturiol Cymru - ein tir, môr ac aer - yn sylfaenol i'n lles. Maen nhw'n cynnal ein hiechyd, ein bywoliaeth a'n diwylliant, ond rhaid inni gofio bod cyfrifoldebau'n dod eu sgil. Mae angen i ni reoli'n hadnoddau naturiol yn well.

Y tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn unol â Pholisi Adnoddau Naturiol statudol Llywodraeth Cymru, yw:

- Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur
- Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy
- Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar le.

Cafodd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru (CPP) ei lansio gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd bryd hynny yn y Sioe Fawr ym mis Gorffennaf 2013 a'i nod oedd arafu a gwyrddroi'r dirywiad yn nifer y pryfed peillio. Cafodd ei ddatblygu trwy gydweithrediad amrywiaeth eang o randdeiliaid ac mae'n cael ei ystyried yn esiampl o ddylunio a chynhyrchu ar y cyd yn y DU. Nid Cynllun Gweithredu gan Lywodraeth Cymru mohono. Mae'n eiddo i'w randdeiliaid sydd wedi bod yn gyfrifol rhyngddynt am ei roi ar waith.

Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yw'r cyntaf o'i fath yng ngwledydd y DU. Ei amcan cyffredinol yw arafu a gwyrddroi'r dirywiad yn nifer y pryfed peillio yng Nghymru trwy:

- Ddarparu cynefinoedd mwy amrywiol ag ynddynt gyfoeth o flodau
- Cynnal poblogaethau iach a chynaliadwy o bryfed peillio;
- Codi ymwybyddiaeth a rhoi gwybodaeth
- Annog pawb i gymryd camau cadarnhaol
- Creu sylfaen o dystiolaeth a fydd yn llywio camau yn y dyfodol.

¹ https://www.reading.ac.uk/web/files/food-security/cfs_case_studies_-_sustainable_pollination_services.pdf

² <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0169534710000364>

³ http://www.reading.ac.uk/caer/Project_IPI_Crops/documents/Ag_Eco_Env_2014_Garratt_et_al.pdf

Mae'r Cynllun Gweithredu'n disgrifio pedwar prif ganlyniad y mae am ei weld, ac rydyn ni wedi'u defnyddio fel sail i'n hadroddiad ar yr hyn sydd wedi'i wneud ers ei lansio yn 2013. Mae'r adolygiad hwn yn cyfeirio at rai o'r prif lwyddiannau. Fe welwch ddisgrifiad manylach o'r gwaith sydd wedi'i wneud yn Atodiad 2.

Y pedwar prif ganlyniad yw:

- **Canlyniad 1:** Mae gan Gymru bolisi a threfniadau llywodraethu cydgysylltiedig a sail gadarn o dystiolaeth ar gyfer gweithredu er lles pryfed peillio
- **Canlyniad 2:** Mae Cymru yn darparu cynefinoedd amrywiol a chysylltiedig sy'n llawn blodau i gynnal ein pryfed peillio
- **Canlyniad 3:** Mae poblogaethau pryfed peillio Cymru yn iach
- **Canlyniad 4:** Mae pobl Cymru yn fwy gwybodus ac ymwybodol o bwysigrwydd pryfed peillio a sut i reoli er eu lles.

Hefyd mae'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei wneud i gefnogi iechyd gwenyn mêl dof a gwenyn gwyllt yn berthnasol. Yn 2009, cyhoeddodd Defra a Llywodraeth Cymru Gynllun Gwenyn Iach. Ei nod yw cynnal poblogaeth gynaliadwy ac iach o wenyn mêl ar gyfer peillio a chynhyrchu mêl yng Nghymru a Lloegr.

Hefyd, mae'r Uned Wenyn Genedlaethol (NBU), rhan o'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ac sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, yn gyfrifol am y Rhaglen Iechyd Gwenyn. Mae'r NBU yn hyrwyddo'r safonau gorau o ran gofalu am wenyn i gadw'r risg o blâu a chlefydau mor fach â phosib, hynny trwy archwilio, addysgu ac ymchwilio. Mae'n diweddarau'r cynlluniau argyfwng yn rheolaidd ac yn cynnal ymarferiadau bob blwyddyn i brofi'r ymatebion i ymddangosiad plâu egsotig yng Nghymru a Lloegr.

Yr adolygiad

Cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen o randdeiliaid ei sefydlu ac mae wedi casglu tystiolaeth am y gweithgareddau y mae Llywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid wedi'u cynnal sy'n llesol i bryfed peillio fel rhan o'r CPP. Ei ail rôl yw clustnodi cyfleoedd yn y dyfodol i warchod pryfed peillio, gan gynnwys trwy gefnogaeth y gymuned, y ffyrdd y gall cyrff cyhoeddus reoli tir cyhoeddus a'r cyfleoedd a ddaw trwy raglenni rheoli tir newydd yng Nghymru.

Elfen bwysig o'r adolygiad hwn yw integreiddio polisi a gweithgarwch er lles iechyd gwenyn ymhellach, gan nodi heriau a chyfleoedd y dyfodol ar gyfer pryfed peillio di-haid a nythfeydd gwenyn mêl.

⁴ <https://llyw.cymru/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf>

Bydd yr adolygiad yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid a Gweinidogion Cymru'n ffyddiog bod sail gydweithredol gadarn o ran casglu tystiolaeth a phennu blaenoriaethau'r dyfodol, hynny i wneud yn siŵr y gwneir y gorau o'r cyfleoedd ar gyfer pryfed peillio. Mae'r adolygiad wedi ystyried 'Ffyniant i Bawb',⁴ strategaeth genedlaethol Cymru, sy'n disgrifio ymrwymïadau Gweinidogion dros y tymor nesaf (2016-2021).

Seilir yr adolygiad hwn ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae llawer o gyrff cyhoeddus gan gynnwys Llywodraeth Cymru o dan ddyletswydd i gydymffurfio ag Adran 6 o Ran 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gyfoethogi bioamrywiaeth a chryfhau ecosystemau (dyletswydd adran 6)⁵.

⁵ <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/environment-act/?skip=1&lang=cy>

Canlyniad 1: Mae gan Gymru bolisi a threfniadau llywodraethu cydgysylltiedig a sail gadarn o dystiolaeth ar gyfer gweithredu er lles pryfed peillio

- **Tasglu'r CPP.** Un o brif elfennau'r Cynllun Gweithredu oedd sefydlu Tasglu Pryfed Peillio, grŵp o fudiadau sy'n rhoi sylw arbennig i bryfed peillio. Y nhw oedd y grym y tu ôl i'r trefniadau ar gyfer rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith. Mae'r Tasglu'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn i drafod problemau, rhannu arferion da a sicrhau cysondeb wrth hyrwyddo pryfed peillio.
- **Monitro Llinell Sylfaen.** Mae Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir⁶ yn cynnal arolygon i fonitro pryfed peillio mewn cylchoedd o 4 blynedd ar nifer o hapsafleoedd a sgwariau targed a ddewiswyd i fesur effaith cynllun Glastir ar bryfed peillio.
- **Monitro Pryfed Peillio ar lefel y DU.** Mae Llywodraeth Cymru'n aelod o Bartneriaeth Monitro ac Ymchwilio Pryfed Peillio'r DU (PMRP) sy'n ceisio cyfuno dadansoddiad gwell o hen gofnodion ag arolygon systematig newydd i weld sut mae poblogaethau o bryfed peillio'n newid. Maen nhw'n darparu data mawr eu hangen ar gyflwr ein pryfed peillio, yn enwedig gwenyn gwyllt a chlêr hofran, a'u rhan wrth gefnogi ffermwyr a natur.
- **Rhaglen Dangosyddion y Llywodraeth.** Ar lefel y DU, mae dangosydd bioamrywiaeth D1C⁷ y DU yn mesur statws pryfed peillio. Ar lefel Cymru, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu dangosyddion 43 (Ardaloedd ag ecosystemau iach yng Nghymru) a 44 (statws bioamrywiaeth Cymru).
- **Ymchwil.** Mae'r rhaglen Achub Pryfed Peillio Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn ymchwilio i'r bwyd sydd ei angen ar wenyn mêl a phryfed peillio gwyllt, gan ddefnyddio ymchwil flaengar ar gyfer bargodio DNA. Ei nod yw sicrhau bod planhigion addas yn cael eu darparu mewn gerddi, parciau a thir ffermio.

Canlyniad 2: Mae Cymru yn darparu cynefinoedd amrywiol a chysylltiedig sy'n llawn blodau i gynnal ein pryfed peillio

- **Caru Gwenyn / Bee Friendly.** Un o lwyddiannau mawr y Cynllun Gweithredu yw'r fenter Caru Gwenyn / Bee Friendly, sef ar y pryd, y cynllun cenedlaethol cyntaf o'i fath. Y nod yw gwneud Cymru'n wlad gyfeillgar i bryfed peillio. Cafodd y fenter ei lansio gan y Tasglu ym mis

⁶ <https://gmep.wales/>

⁷ <http://jncc.defra.gov.uk/page-6851>

Medi 2016, ac y mae ers hynny wedi cydweithio â chymunedau, grwpiau cymunedol, busnesau a mudiadau'r trydydd sector gan roi cyngor a help ynghylch y camau i'w cymryd, gan gynnwys tystysgrif achredu a logo i'r mudiadau sy'n cymryd rhan.

- **Rhannu a Hyrwyddo Gwybodaeth.** I helpu mudiadau sydd wedi'u hachredu gan Caru Gwenyn, mae aelodau'r Tasglu wedi cydweithio hefyd i baratoi rhestr o blanhigion sy'n llesol i bryfed peillio.⁸
- **Gweithredu gan Awdurdodau Lleol.** Mae awdurdodau lleol hefyd wedi bod yn bwysig i lwyddiant y Cynllun Gweithredu. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi lansio Cynllun Seilwaith Gwyrdd ar gyfer pryfed peillio ac mae wedi cynhyrchu cyfres o lawlyfrau i helpu rheolwyr priffyrdd, rheolwyr mannau gwyrdd, prifathrawon a rheolwyr ystadau cyhoeddus⁹.
- Yn ogystal, mae nifer o brosiectau wedi cael help Grant Cyfalaf Seilwaith Gwyrdd Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru: mae Caerffili, Mynwy, Tor-faen a Wrecsam i gyd yn gwneud gwaith er lles pryfed peillio.
- **Y Gronfa Natur a'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy.** Mae Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 wedi cael ei defnyddio i gefnogi gwaith gwella cynefinoedd trwy'r Gronfa Natur a'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy. Prosiectau integredig yw'r rhain ar gyfer gwella iechyd ecosystemau. Bydd hynny'n helpu pryfed peillio.

Buzz Naturiol Cadwch Gymru'n Daclus

Prosiect gan Cadwch Gymru'n Daclus yn Haf 2015 oedd hwn i wella gwasanaethau ecosystemau ar fannau gwyrdd ledled Cymru sy'n ddiffrwyth a segur - tiroedd glas sy'n cael eu torri'n gropp ar ystadau diwydiannol, ysgolion ac ysbytai, parciau busnes ac ymylon ffyrdd - a'u troi'n gynefinoedd llawn blodau i bryfed peillio.

Prosiect Peillwyr am Oes

Cafodd y prosiect uchelgeisiol ac arloesol hwn ei gynnal yn 2015 o dan arweiniad Cyngor Tor-faen. Roedd yn cynnwys nifer o fentrau i hybu rheolaeth tymor hir gynaliadwy ar dir ac i wella cynefinoedd a'r amodau ar gyfer holl bryfed peillio Cymoedd y De. Un elfen o'r prosiect ar y cyd â Gwenynwyr Gwent oedd darparu cyfleusterau addysg i Fferm Gymunedol Greenmeadow i gynnal cyrsiau ar wenyndau i'r gymuned leol.

⁸ <https://www.biodiversitywales.org.uk/File/268/cy-GB>

⁹ <http://www.monmouthshire.gov.uk/countryside-services/green-infrastructure>

Pennal 2050 (Prosiect i'r Dyfodol)

Prosiect cydweithredol i'r hen a'r ifanc ar raddfa tirlun fydd yn cael ei gynnal o 2018-21 gan grŵp cydweithredol (Partneriaeth Pennal) o fwy na 40 o berchenogion tir, grwpiau cymunedol, mudiadau amgylcheddol, undebau ffermwyr a busnesau lleol gan gynnwys y sectorau twristiaeth, hamdden, iechyd a ffermio. Trwy weithio gyda'i gilydd a dibynnu ar arbenigwyr lleol a chyfraniad pobl ar draws y gymuned, bydd y prosiect yn ceisio mynd i'r afael â bygythiadau yn nalgylch afon Dyfi gan gynnwys hinsawdd sy'n newid, cynefinoedd sy'n dirywio, bioamrywiaeth sy'n crebachu, problemau bioddiogelwch, llifogydd, dirywiad yn ansawdd yr aer a'r dŵr, anghydarddoldebau iechyd ac allgáu cymdeithasol. Bydd y prosiect yn ein helpu i ddeall y bygythiadau hyn yn well a sut i fynd i'r afael â nhw, defnyddio adnoddau naturiol yn well a datblygu ecosystemau cryfach i ddiogelu'r gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu i'r gymuned. Bydd y prosiect yn archwilio hefyd rôl talu am wasanaethau ecosystemau mewn cyd-destun amaethyddol ac yn cymryd camau i gefnogi twristiaeth. Mae un o'r gweithgareddau'n cefnogi pryfed peillio trwy sefydlu 10 cwch gwenyn cymunedol o wenyn brodorol gan gyfoethogi bioamrywiaeth a chadernid pryfed peillio a phlanhigion blodeuol. Mae cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau eraill (masnachol ac addysgol) â chynhyrchwyr masnachol fel Hilltop Honey.

- **Menter Blodau Gwyllt ar Ymylon Ffyrdd.** Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth bryd hynny y fenter 'Blodau Gwyllt ar Ymylon Ffyrdd'. Wedi'i drefnu gan swyddogion Trafnidiaeth, nod y rhaglen 5 mlynedd fydd gwella ymylon ffyrdd Cefnffyrdd a Thraffyrdd Cymru. Hyd yma, mae 50 o brosiectau wedi'u cynnal yn llwyddiannus, o dan ofal Asiantaethau Cefnffyrdd y De a'r Gogledd a'r Canolbarth. Mae'r prosiectau'n amrywio o wella technegau cynnal a chadw ar safleoedd allweddol er mwyn helpu cymunedau o flodau gwyllt i ffynnu a lledaenu (e.e. tegeirian ar yr A40 yn Llandeilo) i greu ymylon blodau gwyllt newydd gan ddefnyddio technegau fel cynaeafu hadau o safleoedd brodorol a'u hau ar ymylon wedi'u trin (e.e. ar yr A487 ym Maentwrog).
- **Rheoli ymylon ffyrdd.** Trefnodd Llywodraeth Cymru ddau seminar ar gyfer swyddogion Awdurdodau Lleol yn haf 2017 i hybu'r arfer gorau wrth reoli ymylon ffyrdd er lles bioamrywiaeth heb aberthu gofynion diogelwch ar y ffyrdd. Bu'r seminarau hyn yn gyfle ardderchog i rannu enghreifftiau o ddulliau gwahanol o reoli ymylon ffyrdd a dangos yr arferion gorau, ond mae'n amlwg bod llawer eto i'w wneud i newid meddyliau ynghylch y coridorau pwysig hyn i fywyd gwyllt.
- **B-Lines.** Yn 2017, cyhoeddodd Buglife Cymru fapiau B-Lines ar gyfer y De a'r Gorllewin ar ôl ymgynghori ag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, canolfannau cofnodion lleol, mudiadau amgylcheddol ac eraill. Er mai Buglife oedd yn ei drefnu,

mae B-Lines yn erfyn y gall unrhyw fudiad, grŵp, busnes neu unigolyn ei ddefnyddio i adfer neu greu cynefin ar gyfer pryfed peillio ac anifeiliaid eraill - gall pawb gymryd rhan.

Mae B-Lines yn gwarchod pryfed peillio a chynefinoedd ar lefel y dirwedd, gan ddarparu:

- Rhaglen uchel ei phroffil sy'n siarad â phob sector yn y gymdeithas i ddysgu mwy am fywyd gwyllt, mwynhau natur a gweithredu i helpu bywyd gwyllt.
- Dyma fframwaith i fudiadau ac unigolion ei ddefnyddio i gynnal gwelliannau er lles anifeiliaid gwyllt a chofnodi'r gwaith. Trwy weithio gyda'i gilydd, maen nhw'n gallu gwneud mwy nag y bydden nhw ar eu pen eu hunain.
- Mecanwaith ar gyfer cynnal prosiectau tymor hir ar gyfer adfer cynefinoedd fydd yn gallu denu nawdd o amrywiaeth eang o ffynonellau, sicrhau'r arferion gorau a gwneud y gorau o'r adnoddau.
- Ffordd o weithio sy'n cael ei chefnogi gan nifer o gyrff a mudiadau gyda phob un yn cyfrannu at ei rhoi ar waith.

- **Arweiniad i Awdurdodau Lleol.** Yn 2017, cyhoeddodd Buglife Cymru a Cyfeillion y Ddaear Cymru lawlyfr o'r enw '*Helping pollinators locally in Wales – Developing a local pollinator Action Plan or Strategy*'¹⁰ sydd wedi'i ysgrifennu er lles Awdurdodau Lleol ond sy'n berthnasol i gyrff statudol eraill hefyd. Mae'r llawlyfr yn nodi'r prif ffactorau y dylech eu hystyried wrth baratoi cynllun neu strategaeth er lles pryfed peillio, ac yn ei r(h)oi yng nghyd-destun polisi a deddfwriaeth Cymru.

Canlyniad 3: Mae poblogaethau pryfed peillio Cymru yn iach

- **Gwenynwyr yng Nghymru** Ar hyn o bryd, mae yna 3,366 o wenynwyr yng Nghymru wedi'u cofrestru ar gronfa ddata ar-lein yr Uned Wenyn Genedlaethol (NBU), Beebase. Rhyngddyn nhw, mae ganddyn nhw 18,675 o gychod mewn 4,624 gwenynfa - cyfartaledd o 5.5 cwch i bob gwenynwr neu 4 cwch ym mhob gwenynfa. Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae nifer y gwenynwyr newydd sy'n cofrestru ar Beebase yng Nghymru'n amrywio - yn 2013 roedd 218 ond gwelwyd cynnydd yn 2014 gyda 331 o wenynwyr newydd, gyda 347 yn 2015 gan gwympo i 246 yn 2016 a 205 yn 2017.

¹⁰ <https://www.buglife.org.uk/developing-a-local-pollinator-action-plan>

- **Helpu Gwenynwyr.** Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU i gefnogi'r Uned Wenyn Genedlaethol i ddarparu'r Rhaglen Iechyd Gwenyn yng Nghymru i sicrhau poblogaeth gynaliadwy ac iach o wenyn mêl ar gyfer peillio a chynhyrchu mêl yn y DU.
- **Archwiliadau.** Yn 2017, gwnaeth Arolygiaeth Cymru ymweld â 730 o wenynwyr, 1280 o wenynfeydd a 6195 o gychod a chynnal 430 o archwiliadau yn benodol i chwilio am blâu egsoftig, mewn cyfuniad o fannau risg penodedig a safleoedd a ddewiswyd ar hap. Mae archwiliadau ar gyfer plâu egsoftig yn chwilio am chwilen fach y cwch, gwiddon Tropilaelaps a phicwn Asia tra bo archwiliadau arferol o'r mag yn chwilio am glefyd y gwenyn. Y mannau risg penodedig yw porthladdoedd, meysydd awyr, mewnforwyr cynnyrch crai ar gyfer nythfeydd, marchnadoedd cyfanwerthu ffrwythau a llysiau a safleoedd claddu cynnyrch sydd wedi'u mewnforio. O gofio bod chwilen fach y cwch yn dal i fod yn yr Eidal eleni, a bod picwnen Asia wedi croesi'r môr o Ffrainc, mae'n amhosib gorbwysleisio pwysigrwydd cadw golwg am blâu.
- **Bod yn Barod.** Mae cynlluniau wrth gefn i ddelio â phlâu wedi'u cyhoeddi ar BeeBase¹¹. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithio ag APHA a Defra i annog gwenynwyr Cymru i gadw golwg am glefydau gwenyn.
- **Gwenynfeydd sentinel.** Mae gennym bymtheg o wenynfeydd sentinel yng Nghymru i'n gwneud yn fwy abl i ymateb i blâu o wledydd tramor. Mae gwenynfeydd sentinel yn cael eu sefydlu mewn ardaloedd mewn 'perygl' lle mae gwenynwyr yn gwirfoddoli i gadw golwg ar eu nythfeydd yn unswydd am blâu egsoftig.

Canlyniad 4: Mae pobl Cymru yn fwy gwybodys ac ymwybodol o bwysigrwydd pryfed peillio a'r gwaith o'u rheoli.

- **Arweiniad i reolwyr tir.** Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi help ac arweiniad ¹² i ffermwyr a pherchenogion tir ar reoli tir fferm er lles pryfed peillio trwy raglen Cyswllt Ffermio Llywodraeth Cymru gyda chefnogaeth Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.
- **Y Cyfryngau Cymdeithasol.** Does dim dwywaith bod y pryderon am bryfed peillio drwy'r byd wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Mae mudiadau sy'n aelodau o Caru Gwenyn yn cael eu hannog i roi cyhoeddusrwydd i'w llwyddiannau a'u rhannu ar dudalen Facebook

¹¹ <http://www.nationalbeeunit.com/index.cfm?pageid=206>

¹² <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/taflenni-gwybodaeth-chyhoeddiadau/rheoli-tir-amaethyddol-ar-gyfer-peillwyr>

Caru Gwenyn a chyfrif Trydar Llywodraeth Cymru ac yn cael eu haildrydaru gan Weinidogion Cymru.

- **Eco-Sgolion.** Rydyn ni wedi cymryd camau breision â rhaglen 'Eco-Sgolion' Cadwch Gymru'n Daclus. Menter ryngwladol yw hon sy'n rhoi fframwaith i gefnogi datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn ysgolion. Mae Eco-Sgolion yn mynd â'r dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac yn datblygu dinasyddiaeth gyfrifol gartref ac yn y gymuned ehangach. Mae'r rhaglen Eco-Sgolion wedi gwneud gwaith gwerthfawr wrth hyrwyddo a chodi proffil Caru Gwenyn.
- **Gweithgareddau rhanddeiliaid.** Mae llawer o randdeiliaid wedi defnyddio'r fenter Caru Gwenyn/Bee Friendly i ddatblygu gweithgareddau newydd i helpu pryfed peillio. Mae'r gweithgareddau hynny'n ymwneud yn bennaf â gweithio â'r gymuned, o ysgolion cynradd, colegau a phrifysgolion i gynghorau tref, gerddi cymunedol a chymdeithasau tai. Trwy ddefnyddio'r model cyd-ddylunio hwn law yn llaw â rhanddeiliaid, gellir ymchwilio i drywyddau newydd a sicrhau canlyniadau positif i bryfed peillio.
- Dyma enghreifftiau o gyrff Caru Gwenyn:
 - Awdurdodau Lleol Conwy, Sir Fynwy a Sir Ddinbych
 - Prifysgolion Abertawe, Caerdydd a Metropolitan Caerdydd
 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
 - Coleg y Cymoedd, un o Golegau Addysg Bellach mwyaf Cymru
 - Gwarchodfa'r RSPB yn Llyn Efyrynwy
 - Castell y Waun, Ymddiriedolaeth Genedlaethol
 - Cymdeithas Dai Bron Afon
 - Tyddewi - dinas caru gwenyn gyntaf Cymru



Enghreifftiau o weithgareddau Caru Gwenyn



Plant ysgol yn ymweld â gwenynwr



#BEEFRIENDLY FACTS

In Wales, around 1,500 insect species are pollinators, including the Large Mason Bee which is now only recorded in two locations in North Wales.

CC-BY. Crown Copyright 2017. WG030002

@wgcs_enviro




Trydar Caru Gwenyn



Bron Afon



Ysgol Bryn Collen



Prifysgol Abertawe - Swansea University



Southville, Cwmbran

Caru Gwenyn / Bee Friendly

Beth ydyn ni'n mynd i wneud - y dyfodol

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r prif weithgareddau fydd yn cael eu cynnal i gefnogi canlyniadau'r CPP. Nid yw'n rhestr gyflawn a bydd rhanddeiliaid eraill yn cynnal gweithgareddau i helpu'r CPP.

Canlyniad 1: Mae gan Gymru bolisi a threfniadau llywodraethu cydgysylltiedig a sail gadarn o dystiolaeth ar gyfer gweithredu er lles pryfed peillio

Y mater dan sylw	Cam Gweithredu	Arweinydd
Tasglu'r CPP	Bydd y Tasglu'n dal i gwrdd ddwywaith y flwyddyn, i drefnu cefnogaeth ac i gydgysylltu gweithgareddau.	Bydd LIC yn dal i ddarparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer Tasglu'r CPP
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 - Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy	Mae Rhan 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn esbonio amcan, egwyddorion a fframwaith rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gyda'r nod o gyfoethogi a chryfhau ecosystemau a darparu manteision lluosog sy'n cyfrannu at ein lles. Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol a gynhyrchwyd o dan Adran 9 y Ddeddf yn nodi blaenoriaethau cenedlaethol Gweinidogion Cymru.	Bydd LIC yn ymgorffori'r blaenoriaethau cenedlaethol trwy gynnig atebion sy'n seiliedig ar natur - thema bwysig wrth ddarparu seilwaith gwyrdd.
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 - Adran 6 Bioamrywiaeth a Chryfhau Ecosystemau	O dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth wrth iddyn nhw arfer eu swyddogaethau yng Nghymru, gan gryfhau ecosystemau yn sgil hynny. Gan mai bioamrywiaeth yw sylfaen ecosystem gref a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, amcan dyletswydd Adran 6 yw bod bioamrywiaeth yn ystyriaeth ganolog ym mhob penderfyniad a gweithred a wneir gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.	Bydd LIC yn parhau i weithio gydag awdurdodau cyhoeddus i roi a rhannu arferion gorau er mwyn: Sicrhau bod bioamrywiaeth, gan gynnwys pryfed peillio, yn ystyriaeth ym mhob penderfyniad ar bob lefel; a Chymryd camau i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth

		Rhaid i awdurdodau cyhoeddus baratoi adroddiad ar yr hyn a wnant erbyn diwedd 2019.
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 - Adran 7 Rhestru Bioamrywiaeth	O dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd pwysig er mwyn cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth yng Nghymru. Wrth baratoi'r rhestrau, rhaid iddynt ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru a defnyddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn unol â'r Ddeddf.	Bydd CNC yn cynghori Gweinidogion Cymru ar y rhestrau bioamrywiaeth newydd, gan ystyried eu cyfraniad at gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth ac at gryfhau ecosystemau.
Rheoli Tir yn y Dyfodol	Bydd Llywodraeth Cymru'n dal i gefnogi perchenogion tir yng Nghymru ar ôl Brexit ac mae'n gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i ystyried opsiynau ar gyfer eu helpu yn y dyfodol i ddiogelu adnoddau naturiol Cymru gan gynnwys: Nwyddau cyhoeddus a ddaw o reoli'r tir - cymorth am ddarparu buddiannau cyhoeddus y tir fel lleihau llifogydd, lleihau carbon a chryfhau cynefinoedd Cefnogi busnesau fferm cystadleuol sy'n gallu cynhyrchu'n gynaliadwy - hynny'n cynnwys cefnogi cadwyni cyflenwi a phroseswyr yn ogystal â ffermwyr. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw defnyddio tir a'r amgylchedd mewn ffordd integredig er mwyn annog cynhyrchwyr cystadleuol a darparu manteision arwyddocaol i'r cyhoedd. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried sut orau i ddysgu o brofiadau'r hen gynlluniau rheoli tir er mwyn cryfhau'r cynefinoedd sy'n gartref i'n	LIC

	bioamrywiaeth a'n tirweddau. Gyda'r Cynllun Adfer Natur, rhagwelir y bydd bioamrywiaeth (a chydabyddiaeth gref o bwysigrwydd pryfed peillio) yn sbardun polisi cryf gyda'r blaenoriaethau eraill.	
Monitro	Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i fod yn aelod o Bartneriaeth Monitro ac Ymchwilio Pryfed Peillio (PMRP), gan ddarparu data mawr eu hangen ar gyflwr ein pryfed peillio, yn enwedig gwenyn gwyllt a chlêr hofran, a'u rhan wrth gefnogi ffermwyr a natur.	LIC
Dangosyddion	Bydd LIC gyda CNC yn parhau i ddatblygu Dangosyddion Cenedlaethol 43 (Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru) a 44 (Statws Amrywiaeth Fiolegol Cymru).	LIC a CNC

Canlyniad 2: Mae Cymru yn darparu cynefinoedd amrywiol a chysylltiedig sy'n llawn blodau i gynnal ein pryfed peillio

Y mater dan sylw	Cam Gweithredu	Arweinydd
Caru Gwenyn / Bee Friendly	Trwy'r fenter Caru Gwenyn, byddwn yn parhau i greu cyfleoedd er lles pryfed peillio. Ar sail profiadau'r gorffennol, rhaid wrth gefnogaeth y gymuned a chyda'n rhanddeiliaid, byddwn yn creu rhagor o gynefinoedd addas ar gyfer pryfed peillio trwy fentrau cynllunio trefol a rheoli ystadau cyhoeddus. Trwy gydweithio â Cadwch Gymru'n Daclus a'i raglen Eco-Sgolion, mae Llywodraeth Cymru'n addysgu plant ysgol am bryfed peillio ac yn annog ysgolion i wneud cais am statws Caru Gwenyn.	LIC
Ystad LIC	Mae'r gwaith o greu cynefinoedd ar gyfer pryfed peillio brodorol ar ystad Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo. Ceir gwenynfeydd yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth, Cyffordd Llandudno a Merthyr Tudful. Mae cynnig i ddarparu nifer o wenynfeydd a gardd wyllt ar do swyddfa Parc Cathays yng Nghaerdydd.	LIC
Ymylon ffyrdd	Gan adeiladu ar seminarau Llywodraeth Cymru am ymylon ffyrdd yn 2017, byddwn yn parhau i daclo'r heriau sy'n wynebu rheolwyr ymylon ffyrdd a'u pwysigrwydd i fioamrywiaeth, yn enwedig pryfed peillio. Rhaid parhau i gydweithio â pheirianwyr priffyrdd a rheolwyr contractau gyda chymorth ecolegwyr i sicrhau bod ymylon ffyrdd yn cael eu rheoli mewn ffordd bositif.	LIC ac awdurdodau lleol
B-lines	Diolch i arian Asiantaethau Cefnffyrdd y Gogledd a'r Canolbarth a chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae Buglife Cymru'n gweithio gyda'i bartneriaid yn yr ardaloedd hyn i fapio B-Lines ar draws gweddill Cymru ac i ddatblygu prosiectau B-lines newydd a hyrwyddo'r rhwydwaith B-Lines ymhlith partneriaid, perchenogion tir a rheolwyr tir.	Buglife Cymru

Partneriaethau Natur Lleol (PNLI)	Ym Mlaenau Gwent, cafodd adolygiad o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ei gynnal a bellach Partneriaeth Natur Lleol Blaenau Gwent a Thor-faen yw'r Grŵp Gweithredu ar Fioamrywiaeth. Bydd ei waith yn cynnwys trafod ag aelodau'r PNLI sut i gyfrannu at y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio a thrafod y cyfraniadau yng nghyfarfodydd y Cynllun Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Pryfed Peillio i sicrhau bod yr holl waith ym mhedair sir y de-ddwyrain yn cael ei gyd-drefnu.	PNLI
Cynlluniau Seilwaith Gwyrdd	Mae Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn datblygu Cynllun Seilwaith Gwyrdd ar gyfer trefi penodol yn y Sir. Bydd yn cynnwys adolygiad hefyd gan Gyngor Sir Penfro o'i Rwydwaith o Warchodfeydd Natur ar Ymylon Ffyrdd ac adolygu'i drefniadau plannu gerddi fel eu bod yn cynnwys blodau sy'n denu pryfed peillio.	Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Canlyniad 3: Mae poblogaethau pryfed peillio Cymru yn iach

Y mater dan sylw	Cam Gweithredu	Arweinydd
Y Cynllun Gwenyn Iach	Bydd LIC yn gweithio gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a Defra i adolygu'r Cynllun Gwenyn Iach. Amcanion y Cynllun yw cael poblogaeth gynaliadwy ac iach o wenyn mêl ar gyfer peillio a chynhyrchu mêl yn y DU. Mae'n sbarduno'r Llywodraeth, gwenynwyr a rhanddeiliaid eraill i ymateb yn effeithiol i blâu a chlefydau a chynnal gwenyn mêl a gwenyna ar gyfer y dyfodol.	LIC
Fforwm Cynghori'r DU ar Iechyd Gwenyn	Bydd LIC yn parhau i fod yn aelod o fforwm Cynghori'r DU ar Iechyd Gwenyn.	LIC
Cefnogi'r Uned Wenyn Genedlaethol	Bydd LIC yn parhau i weithio gydag APHA a'r Uned Wenyn Genedlaethol (NBU). Bydd hynny'n cynnwys rheoli plâu a chlefydau sydd eisoes yn bod yn y DU gan gynnwys Clefydau Americanaidd ac Ewropeaidd y Gwenyn.	LIC a'r NBU
Cynlluniau argyfwng a rhywogaethau goresgynnol.	Varroa a hefyd y plâu a chlefydau sydd heb gyrraedd ein gwlad eto ond a allai fod yn fygythiad yn y dyfodol fel chwilen fach y cwch, trogod <i>Tropilaelaps</i> a Phicwn Asia. Mae LIC a Defra wedi paratoi Cynllun ar gyfer Picwn Asia sy'n esbonio'r hyn y dylid ei wneud pe bai'n cyrraedd y wlad hon. Byddwn yn parhau i gydweithio a rhannu adnoddau gyda Defra.	LIC a'r NBU

Canlyniad 4: Mae pobl Cymru yn fwy gwybodys ac ymwybodol o bwysigrwydd pryfed peillio a'r gwaith o'u rheoli.

Y mater dan sylw	Cam Gweithredu	Arweinydd
Rôl awdurdodau lleol	Mae Cyngor Conwy a Chyngor Sir Fynwy wedi llwyddo i gael statws Caru Gwenyn a byddan nhw'n parhau i hyrwyddo arferion sy'n denu pryfed peillio. Bydd Buglife Cymru'n parhau i gyfrannu at y CPP i ddatblygu a chynnal prosiectau ar y cyd ag awdurdodau lleol ar gyfer creu/adolygu cynlluniau/strategaethau pryfed peillio. Mae Buglife wedi cynhyrchu canllaw 'The Promotion of Helping Pollinators Locally in Wales' ar gyfer awdurdodau lleol, gan gynyddu'r ymwneud â chyrff statudol eraill gan gynnwys Cyrff Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB's).	Cyngor Conwy a Chyngor Sir Fynwy Buglife Cymru
Ymwelwyr â gwarchodfeydd natur	Mae Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn wedi ennill statws Caru Gwenyn ac mae'n hyrwyddo cyfleoedd i bryfed peillio yn eu 22 o warchodfeydd yn y Canolbarth.	Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn
Gweithio gyda chymunedau	Mewn partneriaeth â'r RSPB a Chyngor Caerdydd, mae Buglife Cymru'n helpu i Roi Cartref i Natur yng Nghaerdydd, gan weithio gydag ysgolion, rhandiroedd, grwpiau cymunedol a theuluoedd i gynyddu cynefinoedd ac addysgu am bryfed peillio.	Buglife Cymru, RSPB, Cyngor Caerdydd
Arolygon a mentrau cenedlaethol	Mae Buglife Cymru'n datblygu prosiectau newydd i helpu pryfed peillio gyda phartneriaid, gan ddiweddarau tudalennau'r wefan, taflenni gwybodaeth mewn digwyddiadau a hyrwyddo mentrau ac arolygon cenedlaethol fel BeeWalk, Polli:nation, Big Butterfly Count a Caru Gwenyn.	Buglife Cymru

Atodiad 1 - Astudiaethau Achos

Astudiaeth Achos 1 - Cyngor Sir Fynwy

Ym mis Rhagfyr 2016, enillodd Cynllun Gweithredu'r Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Pryfed Peillio Wobr flynyddol Llywydd y Sefydliad Tirweddau. Y cynllun hwn yw'r cyntaf o'i fath ac mae'n esbonio sut y gall perchenogion tir reoli eu heiddo'n fwy effeithiol a gweithio gyda'i gilydd i wyrdroi'r dirywiad yn niferoedd gwenyn a phryfed peillio eraill.

Cafodd ei lunio gan TACP, y penseiri tirweddau o Gaerdydd, a'i reoli gan Mackley Davies Associates Ltd i greu cynefinoedd newydd i bryfed peillio ar ran cynghorau lleol ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Thor-faen.

Roedd y cynllun yn un o nifer o brosiectau unigol a chydweithredol sy'n ffurfio prosiect *Peillwyr am Oes* Cyngor Tor-faen, sy'n cael ei gynnal gan bedwar cyngor lleol a'i ariannu trwy raglen Cronfa Natur Llywodraeth Cymru.

Ynghyd ag arwain Cynllun Gweithredu'r Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Pryfed Peillio, datblygodd Sir Fynwy ardd ar gyfer pryfed peillio ym Mrynbuga. Yn sail i hyn yw ei pholisi newydd ar seilwaith gwyrdd yn ei gwaith datblygu a rheoli.

Bu canmol ar y cynllun, yn enwedig yn sgil y manteision a ddaeth trwy'r cydweithio rhwng cynghorau cyffiniol, landlordiaid cymdeithasol, gwasanaethau brys, ysgolion, perchenogion tir a grwpiau cymunedol eraill. Mae'n disgrifio'r hyn a wneir i ddenu gwenyn a phryfed peillio eraill. Mae hynny'n cynnwys torri porfa at uchder gwahanol ar adegau gwahanol o'r flwyddyn a datblygu gweirgloddiau a mannau plannu ffurfiol.



Astudiaeth Achos 2 - Caru Gwenyn

Cafodd Caru Gwenyn / Bee Friendly ei lansio ym mis Medi 2016. Dyma'r cynllun cenedlaethol cydgysylltiedig cyntaf o'i fath ac mae sicrhau bod Cymru yn wlad gyfeillgar i beillwyr yn ganolog iddo. Hyd yma, mae dau-ddeg-naw o sefydliadau ledled Cymru wedi cyrraedd statws Caru Gwenyn ac maent yn cynnal gweithgareddau positif er lles pryfed peillio.

Mae gan Caru Gwenyn bedwar nod:

- **Bwyd** – darparu ffynonellau bwyd sy'n addas i bryfed peillio yn eich ardal
- **Lle da i fyw ynddo** – darparu lle i bryfed peillio fyw ynddo
- **Dim plaladdwyr na chwynladdwyr** - ymrwymo i osgoi cemegion sy'n niweidio pryfed peillio
- **Hwyl** - cael y gymuned gyfan i gymryd rhan ac esbonio pam rydych chi'n helpu pryfed peillio.



Dyma rai o'r llwyddiannau mwyaf:

- Cyngor Conwy oedd yr awdurdod Caru Gwenyn cyntaf yng Nghymru; Cyngor Mynwy oedd yr ail.
- Prifysgol Abertawe oedd y Brifysgol Caru Gwenyn gyntaf yng Nghymru; Prifysgol Caerdydd oedd yr ail.
- Cyngor Tref Brynbuga oedd y Cyngor Tref Caru Gwenyn cyntaf yng Nghymru; Cyngor Tref Trefdraeth oedd yr ail.
- Campws Nantgarw Coleg y Cymoedd oedd y Coleg Addysg Bellach Caru Gwenyn cyntaf yng Nghymru.
- Mae'r RSPB, Ymddiriedolaeth Natur Trefaldwyn a nifer o ysgolion ar hyd a lled y wlad hefyd wedi ennill statws Caru Gwenyn.

Astudiaeth Achos 3 - Prif Swyddfa Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Mae prif swyddfa Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn Noc Penfro, mewn ardal eithaf trefol ei natur. Yn hytrach na'i thorri'n rheolaidd gan y Cyngor, mae'r borfa o gwmpas y swyddfeydd bellach yn cael ei lladd fel pe bai'n ddôl er mwyn ei gwneud yn wylltach ac er mwyn denu blodau gwyllt a'r pryfed sy'n eu peillio.



Mae'r borfa'n cael ei thorri unwaith y flwyddyn bellach ac yn cael ei chasglu'n fynau gan ddefnyddio offer byrnu bach. Rydyn ni'n cynnig y gwair hwnnw ar ein tudalen Facebook ac mae fel arfer yn cael ei gymryd gan ffermwr neu berchennog tir lleol.

Mae'r ddôl yn Llanion wrthi'n cael ei datblygu ond mae nifer o flodau gwyllt nodweddiadol yn tyfu arni gan gynnwys y melynydd, y pengaled, pŷs-y-ceirw a'r feddyges las ac rydyn ni'n gobeithio y gwelwn ni nhw'n lledaenu o dan y drefn newydd. Gwnaethom ni weld tegeirian coch y gwanwyn am y tro cyntaf yn 2015.

Mae'r ddôl bellach yn fyw o weny a phili palod gydol misoedd yr haf ac mae anifeiliaid eraill o bob math yn teimlo'i mantais; mae adar y to yn ymweld â'r ddôl yn rheolaidd a gwelwyd haid fechan o nicos yn bwydo ar yr hadau eleni. Mae gwenoliaid yn saethu dros wyneb y ddôl i hela'r pryfed sy'n crynhoi yno. Mae'r ardal yn dda iawn hefyd am ffyngau tir pori fel cap cŵyr y ddôl, cap cŵyr y parot, cap cŵyr ymenyn, cap cŵyr rhuddgoch, cap cŵyr coch a'r cap cŵyr claerwyn yn ogystal â thafod daear melynwydd.


Gwnaethon ni ddysgu llawer wrth sefydlu'r ddôl. Cawsom gwynion pan wnaethon ni'r newid yn y lle cyntaf ynghylch ei olwg anniben ac i ddatrys y broblem, aethon ni ati i amrywio'r drefn dorri fel bod rhannau bychain, fel y rheini wrth ymyl y llwybrau ac o flaen yr adeiladau'n cael eu torri o leiaf bob 6 wythnos. Mae'r rhannau hyn nawr yn daclusach ac mae mathau gwahanol ond yr un mor ddiddorol o blanhigion yn tyfu yno, gan gynnwys meillion, milddail a phys-y-ceirw. Mantais arall hyn yw eu bod yn ffynhonnell neithdar ar ôl torri'r weirglodd.

Astudiaeth Achos 4 - B-Lines

Mae prosiect B-Lines yr elusen Buglife yn gweithio i nodi llwybrau llinellol ar draws Prydain lle gellir adfer a chreu cyfres o 'gerrig camu' llawn blodau ar eu hyd. Bydd y llwybrau llinellol hyn yn helpu pryfed peillio i symud ar draws y wlad gan gysylltu cynefinoedd a chyfrannu at gyfrhau poblogaethau pryfed peillio.

Mae B-Lines yn 'goridorau gwasgaru' 3km o led sy'n cynnwys ac yn cysylltu'r cynefinoedd llawn blodau gwyllt gorau a helaethaf. Defnyddir setiau data cenedlaethol a lleol o'r prif gynefinoedd a lle gellir, defnyddir mapiau o rwydweithiau a bioamrywiaeth ecolegol i helpu i nodi'r llefydd gorau ar gyfer creu cysylltiadau. Mae grŵp o randdeiliaid lleol yn cael ei ffurfio i drafod rhwydweithiau B-lines posib a chytuno arnyn nhw.

Aeth Buglife Cymru ati i fapio B-Lines yn [Ne a Gorllewin Cymru](#) yn 2016. Defnyddir setiau data gan gynnwys map Cynefinoedd Cam 1 Cymru, haenen SoDdGAoedd a haenau safleoedd bywyd gwyllt lleol i greu map B-Lines drafft. Daeth amrywiaeth o bartneriaid ynghyd gan gynnwys Awdurdodau Lleol, cyrff anllywodraethol, canolfannau cofnodion lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a naturiaethwyr lleol, ynghyd ar gyfer gweithdai. Diolch i nawdd Lywodraeth Cymru ac Asiantaethau Cefnffyrdd y Gogledd a'r Canolbarth, rydyn ni nawr yn gweithio gyda phartneriaid i fapio B-Lines yn y Canolbarth a'r Gogledd.



Mae gan B-Lines y potensial i:

- Adfer a chreu dolydd blodeuog o ansawdd uchel (a chynefinoedd eraill llawn blodau), gan gynyddu'r arwynebedd sy'n gynefin a helpu poblogaethau o amrywiaeth o infertebratâu
- Lleihau darnio cynefinoedd a chysylltu cynefinoedd yn well a helpu rhywogaethau i symud a gwasgaru
- Cyfrannu at nifer o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys peillio, dal a storio carbon a rheoli adnoddau dŵr. Yr hyn sy'n bwysig am y fenter B-Lines yw bod gan bawb, yn berchenogion tir mawr, awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol, busnesau neu unigolion, ran i'w chwarae.

Astudiaeth Achos 5 - Achub Pryfed Peillio yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Mae colli cynefinoedd, ffermio dwys, plâu, clefydau a hinsawdd sy'n newid i gyd yn cyfrannu at y gostyngiad yn niferoedd pryfed peillio drwy'r byd. Er mwyn deall y rhesymau pam mae pryfed peillio'n prinhau a llunio canllawiau ar sut i'w diogelu, mae angen gwybodaeth fanwl ynghylch pa gynefinoedd a bwyd sydd eu hangen ar bryfed peillio. Byddwn yn defnyddio'n harbenigedd mewn barcodio DNA a'n hadnoddau garddwriaethol helaeth i ymchwilio i ba flodau sy'n well gan wenyn mêl a phryfed peillio gwyllt.

Trwy farcodio DNA i adnabod y paill ar gyrff pryfed peillio a samplau o fêl, rydyn ni'n ymchwilio i ba blanhigion y mae gwenyn mêl a phryfed peillio yn eu defnyddio. Rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth i baratoi cyngor ar ba blanhigion y dylid eu plannu mewn gerddi, ardaloedd amwynder ac o fewn tirweddau amgylcheddol. Mae gennym bedwar myfyriwr PhD i wneud y gwaith ymchwil hwn. Mae tri ohonyn nhw'n cael eu hariannu trwy Ysgoloriaeth Sgiliau Cyfnewid Gwybodaeth (KESS2).

- Mae Laura Jones (Gardd Fotaneg a Phrifysgol Bangor) yn ymchwilio i'r planhigion y mae gwenyn mêl yn bwydo arny'n nhw ym Mhrydain.
- Mae Andrew Lucas (Gardd Fotaneg a Phrifysgol Abertawe) yn ymchwilio i ba blanhigion y mae clêr hofran yn eu defnyddio mewn glaswelltiroedd amaethyddol lled-naturiol.
- Mae Abigail Lowe (Gardd Fotaneg a Phrifysgol Bangor) yn ymchwilio i werth gerddi o ran darparu blodau er lles pryfed peillio.
- Lucy Witter (Gardd Fotaneg a Phrifysgol Aberystwyth). Blog: Plants for Pollinators: datblygu a phrofi cymysgeddau o hadau a chynlluniau plannu ar gyfer gerddi, ardaloedd amwynder a systemau amaethyddol fydd yn denu pryfed peillio.

Tyfu'r Dyfodol - Cynllun Gwarantu Planhigion ar gyfer Peillwyr

Rydyn ni'n dechrau ar brosiect pum mlynedd i hyrwyddo garddwriaeth Cymru, diogelu bywyd gwyllt a hyrwyddo manteision tyfu planhigion am ein bwyd ac er mwynhad ac er budd ein hiechyd a'n lles. Mae Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020, sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, wedi neilltuo £2.3 miliwn ar gyfer y prosiect. Mae 'Cynllun Gwarantu Planhigion ar gyfer Peillwyr' yn rhan o'r prosiect. Gan ddefnyddio canlyniadau'n gwaith ymchwil i Achub Pryfed Peillio, byddwn yn gweithio gyda thyfwyr Cymru i ddarparu planhigion sy'n denu pryfed peillio ac sy'n cael eu cynhyrchu'n gynaliadwy yng Nghymru heb ddefnyddio mawn na phlalladdwyr.



Atodiad 2 - Ble ydyn ni arni 2013 - 2017	
Maes Gweithredu 1.1	Tystiolaeth Gweithredu
Cysylltu a chychwyn polisïau a rhaglenni i gynhyrchu camau gweithredu buddiol sy'n dda i bryfed peillio ac iechyd yr ecosystem	
Sefydlu Tasglu Pryfed Peillio.	Wedi'i wneud. Cafodd y Tasglu Pryfed Peillio ei sefydlu ym mis Hydref 2013. Mae wedi cyfrannu'n fawr at wireddu amcanion y Cynllun Gweithredu. Mae croeso i unrhyw gorff sy'n cyfrannu at roi'r cynllun gweithredu ar waith ymuno â'r Tasglu a bydd yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn. Mae adroddiadau ar weithgareddau aelodau'r Tasglu yn cael eu paratoi sy'n ei helpu i gydlynu a threfnu gweithgarwch ar draws Cymru.
Dynodi unrhyw ffynonellau ac anghenion adnoddau ar gyfer y dyfodol i roi'r cynllun ar waith.	Yn parhau. Gyda blaenoriaethau a gwaith y Tasglu Pryfed Peillio yn eu tywys, cynorthwyr aelodau i benderfynu pa adnoddau i'w defnyddio i roi'r cynllun gweithredu ar waith.
Datblygu'r Cynllun Gweithredu drafft i greu rhaglen waith, gan ddefnyddio protocolau a gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.	Wedi'i wneud. Mae'r Cynllun Gweithredu'n cael ei roi ar waith trwy weithgarwch y Tasglu Pryfed Peillio. Mae'r atodiad hwn yn crynhoi'r gwaith a wnaed.
Sicrhau bod y rhaglen o reoli adnoddau naturiol o fewn Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried pryfed peillio'n llawn fel gwasanaeth ecosystem allweddol.	Wedi'i wneud. Mae Polisi Adnoddau Naturiol LIC yn adlewyrchu pwysigrwydd peillio fel gwasanaeth ecosystem allweddol. Mae CNC yn parhau i hyrwyddo pryfed peillio trwy'r fenter Caru Peillwyr a'r Paparazzi Peillwyr ¹³ .

¹³ . <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/pollinators/bee-a-pollinator-paparazzi/?lang=cy/>
<https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/pollinators/love-pollinators/?lang=cy>

Sicrhau bod gan y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf y potensial i fod yn fuddiol i bryfed peillio.	Wedi'i wneud. Mae Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020 wedi cynnal gweithgareddau positif er lles pryfed peillio trwy Glastir a'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (gweler mwy o fanylion isod).
Sicrhau bod pryfed peillio yn rhan annatod o'r ymateb i'r adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur ac unrhyw strategaeth ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru.	Wedi'i wneud. Mae adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2016¹⁴ yn rhoi sylw arbennig i'r dirywiad yn nifer y pili-palod yng Nghymru. Cynllun Adfer Natur Cymru yw strategaeth bioamrywiaeth ac mae'n cydnabod rôl a phwysigrwydd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio.
Ystyried pryfed peillio yn ystod archwiliadau bioamrywiaeth mewnol NERC Llywodraeth Cymru, ac archwiliadau cyfatebol Awdurdodau Lleol, gan gynnwys sicrhau bod unrhyw feini prawf ariannu'n cynnwys bioamrywiaeth a phryfed peillio.	Wedi'i wneud. Cafodd cynllun bioamrywiaeth LIC ei gwblhau a'i gyhoeddi¹⁵. Cyfrannu at wyrdroi y dirywiad mewn bioamrywiaeth, hyrwyddo cadernid ecosystemau, cyflwyno dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau well trwy Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (dyletswydd Adran 6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth arfer swyddogaethau sy'n berthnasol i Gymru. Mae Adran 6 yn disodli ac yn cryfhau'r hen ddyletswydd bioamrywiaeth o dan adran 40 Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 yng Nghymru. O dan y ddyletswydd newydd, rhaid i awdurdodau cyhoeddus wrth gyflawni'u swyddogaethau yng Nghymru gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth lle medrant, yn unol ag arfer eu swyddogaethau'n briodol, ac wrth wneud, cryfhau ecosystemau.

¹⁴ https://www.rspb.org.uk/globalassets/downloads/documents/conservation-projects/state-of-nature/stateofnature2016_wales_english.pdf

¹⁵ <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/?skip=1&lang=cy>

	Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi canllawiau i helpu awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (dyletswydd A6) wrth arfer eu swyddogaethau yng Nghymru. Mae canllawiau a meini prawf ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer neilltuo arian craidd i is-adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy; Cronfa Refeniw Sengl i awdurdodau lleol; ac arian LIC ar gyfer seilwaith gwyrdd, wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r cyfleoedd i gefnogi bioamrywiaeth a phryfed peillio.
Datblygu dangosydd i'r Rhaglen Lywodraethu a fydd yn adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud dros bryfed peillio ar draws sectorau.	Yn parhau. Ar lefel y DU, mae dangosydd bioamrywiaeth D1C ¹⁶ y DU yn mesur statws pryfed peillio. Ar lefel Cymru, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu dangosyddion 43 (Ardaloedd ag ecosystemau iach yng Nghymru) a 44 (statws bioamrywiaeth Cymru).
Cynhyrchu canllawiau arfer gorau y cytunwyd arnynt er lles pryfed peillio i reolwyr tir a llunwyr polisiau.	Wedi'i wneud. Mae cyrff fel CNC¹⁷, Buglife a Chyfeillion y Ddaear Cymru¹⁸, a Chynghorau Sir Fynwy, Caerffili, Tor-faen a Blaenau Gwent¹⁹ i gyd wedi paratoi canllawiau ar wahân am: • rheoli tir cyhoeddus er lles pryfed peillio (CNC); • datblygu cynllun gweithredu neu strategaeth leol er lles pryfed peillio (Buglife a Chyfeillion y Ddaear Cymru); • rheoli ymylon ffyrdd er lles pryfed peillio (Sir Fynwy, Caerffili, Tor-faen a Blaenau Gwent); Mae canllawiau wedi'u paratoi hefyd trwy Cyswllt Ffermio²⁰ i helpu

¹⁶ <http://jncc.defra.gov.uk/page-6851>

¹⁷ <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/pollinators/love-pollinators/?lang=cy>

¹⁸ https://www.buglife.org.uk/sites/default/files/Helping%20Pollinators%20Locally_Wales.pdf

¹⁹ <http://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2017/01/Managing-Highway-Verges-for-Pollinators-An-introduction-for-highway-managers-final-draft-18.11.15.pdf>

	perchenogion tir ac mae cyngor technegol ar gael hefyd ar gadw'r ddysgl yn wastad rhwng anghenion natur a'r angen i gynhyrchu bwyd yn effeithiol.
--	---

Maes Gweithredu 1.2	Tystiolaeth Gweithredu
Creu sylfaen o dystiolaeth i gefnogi gweithredoedd fydd o les i bryfed peillio i'r dyfodol	
Canfod bylchau dystiolaeth a blaenoriaethau ymchwil mewn perthynas â phryfed peillio yng Nghymru, gan gysylltu ag adolygiad Defra o dystiolaeth am bryfed peillio, a mentrau eraill yn y DU gan gynnwys y Fenter Pryfed Peillio.	Wedi'i wneud. Mae LIC yn parhau i weithio ar lefel y DU ar gasglu data trwy Raglen Monitro Pryfed Peillio'r DU ²¹ . Bydd hyn yn sicrhau cydweithrediad i fonitro tueddiadau ym mhoblogaethau a chymunedau pryfed peillio dros amser ac yn ein helpu i ddeall yn well beth yw'r bygythiadau i bryfed peillio a'r cysylltiadau rhwng pryfed peillio a gwasanaethau peillio sy'n chwarae rhan bwysig yn y diwydiant ffermio. Mae'r rhaglen yn cael ei chyd-ariannu â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn y DU.
Sefydlu data sylfaenol a chynllun i fonitro dangosyddion priodol y cynllun, er enghraifft: poblogaethau pryfed peillio y cytunwyd arnynt, ardaloedd cynefinoedd â llawer o flodau ynddynt a dangosydd ar gyfer ymwybyddiaeth y cyhoedd.	Wedi'i wneud. Mae Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir ²² yn cynnal arolygon i fonitro pryfed peillio mewn cylchoedd o 4 blynedd ar nifer o hapsafleoedd a sgwariau targed a ddewiswyd i fesur effaith cynllun Glastir ar bryfed peillio. Trwy ddefnyddio canfyddiadau'r Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir ddiweddar, gobeithir ehangu'r cyfleoedd i bryfed peillio.

²⁰ <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/taflenni-gwybodaeth-chyhoeddiadau/rheoli-tir-amaethyddol-ar-gyfer-peillwyr>

²¹ <https://www.ceh.ac.uk/our-science/projects/pollinator-monitoring>

²² <https://gmep.wales/>

Maes Gweithredu 2.1 Hyrwyddo, creu a gwella cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig ar draws tir ffermio	Tystiolaeth Gweithredu
Ystyried sut y gall Glastir wella canlyniadau ar gyfer bioamrywiaeth a phryfed peillio.	Wedi'i wneud. Mae cynllun Glastir yn cynnig opsiwn i ffermwyr wella adnoddau bwyd ar gyfer mathau prin o wenyn bwm fel Cardwenyn Meinlais a Chardwenyn Llwyfrown trwy hau meillion coch ar gaeau cyfan. Trwy Gynllun Grantiau Bach Glastir, cynigiwyd cyfnod ymgeisio yn ddiweddar o'r enw 'Tirwedd a Phryfed Peillio' i dalu am weithgareddau sy'n cyfrannu at adfer nodweddion y dirwedd ac i greu cynefinoedd ar gyfer pryfed peillio. Trwy 'Tirwedd a Phryfed Peillio', mae dros 750 o berchenogion tir yng Nghymru wedi ymrwymo i gynnal opsiynau rheoli er lles pryfed peillio.
Pan fo hynny'n bosibl, cynnwys canlyniadau bioamrywiaeth yn y broses o ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a datblygu'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf.	Yn parhau. Mae Llywodraeth Cymru am wella arferion rheoli tir ym mhob rhan o gefn gwlad, gan gynnwys ar dir ffermio. Mae swyddogion LIC wrthi'n ystyried sut orau i gyfuno'r gorau o Glastir (fel y'u nodir gan Raglen Monitro a Gwerthuso Glastir), y gwersi y gall mesurau bioamrywiaeth o'r tu allan i Gymru eu dysgu inni, a'r Cynllun Adfer Natur i sicrhau bod bioamrywiaeth (gyda sylw arbennig i bryfed peillio) yn cael yr un gydnabyddiaeth â blaenoriaethau eraill. Mae swyddogion wrthi'n trafod â'r holl randdeiliaid perthnasol i gasglu cymaint o syniadau a gwybodaeth â phosib.
Cysylltu canlyniadau i bryfed peillio â gwaith Llywodraeth Cymru ar Daliadau am Wasanaethau Ecosystem.	Yn parhau. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ffynhonnell ariannu bosib ar gyfer datblygu dulliau rheoli tir mwy cynaliadwy a chydnerth, ac mae'n awyddus i ystyried y posibilïadau ar gyfer denu

	arian preifat i sicrhau a gwella'r gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan berchenogion tir. Mae Taliadau am Wasanaethau Ecosystem (TAE) yn daliadau i berchenogion tir, yn unigolion ac yn grwpiau, i gynnal gweithgareddau sy'n cryfhau ecosystemau er mwyn estyn oes, cynyddu nifer a gwella ansawdd y gwasanaethau ecosystem y gobeithir eu gweld, gyda buddiannau i ddefnyddwyr penodol neu gyffredinol. Mae datblygu marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau ecosystem yn hanfodol i allu rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Mae'n cydnabod pwysigrwydd ecosystemau a'u gwasanaethau i economi a lles Cymru a gallant helpu i sicrhau newidiadau a buddiannau er lles natur, ansawdd dŵr, rheoli llifogydd, iechyd a llesiant, lleihau carbon a chymunedau gwledig. Rydym yn gweithio'n arbennig i greu'r seilwaith a'r fframweithiau i gynnal marchnadoedd newydd ar gyfer gwasanaethau ecosystemau. Trwy wireddu gwerth gwasanaethau ecosystemau a chreu incwm ar gyfer eu rheoli, gallwn sicrhau canlyniadau amgylcheddol buddiol a rhoi incwm newydd i ffermwyr a pherchenogion tir. Dyna un o brif arfau Llywodraeth Cymru ar gyfer ei blaenoriaethau allweddol o greu swyddi a thwf a threchu tlodi, gan sicrhau'r un pryd ein bod yn cynnal amgylchedd cydnerth ac amrywiol. Mae'n dangos hefyd y manteision a ddaw o reoli adnoddau naturiol ar sail ecosystem a datblygu economi werdd a marchnadoedd ar gyfer ecosystemau.
Codi ymwybyddiaeth o arfer gorau ymysg ffermwyr a rheolwyr tir drwy gyfrwng Cyswllt Ffermio, a lledaenu canllawiau arfer gorau.	Wedi'i wneud. Mae Cyswllt Ffermio wedi cyhoeddi²³ canllaw i ffermwyr a pherchenogion tir fydd yn eu hannog i gymryd y camau canlynol: • Lleihau darnio cynefinoedd a chysylltu cynefinoedd yn well

²³ <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/taflenni-gwybodaeth-chyhoeddiadau/rheoli-tir-amaethyddol-ar-gyfer-peillwyr>

	• Darparu cynefinoedd gwahanol a lleoedd i fywyd gwyllt nythu a magu, bwydo a gaeafgysgu. • Torri/pori llai ar gaeau a pherthi (gwrychoedd) lle medrir; mae ar lawer o bryfed peillio angen lleoedd tawel i aeafgysgu ynddyn nhw. • Annog pobl i dyfu planhigion sy'n cynhyrchu pail a neithdar a phlanhigion sy'n fwyd i larfâu. Mae Menter a Busnes wedi cynnal prosiect o'r enw Porfa i Beillwyr²⁴. Chwe fferm odro o Gwmni Cydweithredol Calon Wen sy'n cymryd rhan, o bob rhan o Gymru. Y nod yw rhoi hwb i nifer y pryfed peillio ar eu ffermydd dros 3 blynedd y prosiect. Gyda chynrychiolwyr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gwenyn Bwn a'r RSPB, mae'r prosiect yn ystyried pa newidiadau syml sy'n bosib i arferion rheoli tir pori heb aberthu cynhyrchiant y fferm a dangos y gall elw fynd yn law yn llaw â gwarchod gwenyn.
--	---

Maes Gweithredu 2.2 Hyrwyddo, creu a gwella cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig ar draws ardaloedd gwarchodedig a chefn gwlad yn gyffredinol	Tystiolaeth Gweithredu
---	-------------------------------

²⁴ <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/porfa-i-beillwyr>

Cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau camau gweithredu ar gyfer pryfed peillio mewn safleoedd dynodedig, ac o fewn yr ystad goed.	Wedi'i wneud. Mae CNC wedi gweithredu er lles pryfed peillio ar nifer o safleoedd wedi'u dynodi; Er enghraifft, yng Nghors Caron, mae coed a llwyni prysgwydd a pherthi, yn enwedig mathau sy'n blodeuo'n gynnar, fel y ddraenen ddu, yr helygen, y ddraenen wen a'r wernen yn ffynhonnell blodau ac yn cael eu torri mewn ffordd sensitif fel rhan o gylchdro i sicrhau bod blodau ar gael. Mae'r borfa arw sych ar ymylon y rheilffordd segur yn gynefin bridio i wenyn bwn a gwenyn eraill sy'n nythu mewn hen dyllau llygod. Fel hafan sych mewn cynefin gwlyb, mae arglawdd ac ymylon yr hen reilffordd yn darparu cartrefi sych dros y gaeaf i bob math o anifeiliaid gwyllt, gan gynnwys llawer o bryfed peillio.
Sicrhau bod canlyniadau a dangosyddion Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cynnwys bioamrywiaeth a phryfed peillio.	Wedi'i wneud. Mae'r Parciau Cenedlaethol yn parhau i helpu i warchod pryfed peillio. Er enghraifft, mae Parc Gwledig Craig y Nos, sy'n eiddo i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi cyflwyno dau gwch gwenyn, sy'n cynnwys dros 30,000 o wenyn ac mae cynlluniau bellach i sefydlu mwy o gychod gwenyn ar safleoedd eraill Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae'r Parc Gwledig yn lle rhagorol ar gyfer gwenyn mêl - maen nhw'n cael ffynnu mewn ecosystem warchodedig, paradwys i bryfed heb blaladdwyr a pheryglon eraill sy'n bygwth y rhywogaeth. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi creu ac yn cynnal dolydd blodeuol ar ei ystâd. Gan gynnwys: • tir ei swyddfeydd ym Mharc Llanion (amgylchedd trefol). Cofnodwyd tegeirian am y tro cyntaf yn 2018 • Skinkle Haven (safle hamddena anffurfiol ar lan môr) • Llain Awyr Tyddewi (un o'r gweirgloddiau mwyaf yn y Parc Cenedlaethol). • Minwear (safle picnic)

	• Castell Caeriw (atyniad i ymwelwyr) Mae Prosiect Dolydd Rhosili'n rhan o Bartneriaeth Tirwedd Gŵyr ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n ailgreu ac adfer gweirgloddiau yng nghyffiniau Rhosili. Wrth sefydlu 30ha o weirgloddiau, bydd pryfed ac anifeiliaid peillio eraill yn elwa.
Adolygu rheoliadau a dynodiadau allweddol sy'n effeithio ar bryfed peillio i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y diben.	Wedi'i wneud. Mae cryfder ecosystem yn seiliedig ar fioamrywiaeth, ac mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cydnabod hynny. Un o amcanion y Ddeddf yw Cymru Gydnerth: 'gwlad sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol sydd ag ecosystemau byw ac iach sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, i hinsawdd sy'n newid)'. Mae Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymgorffori set o egwyddorion allweddol ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy sy'n cyfateb i'r rheini a geir yng Nghonfensiwn ar Fioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig. Y nod yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision niferus y maen nhw'n eu darparu. I wireddu'r amcan hwn, mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith clir ar gyfer casglu tystiolaeth a phennu blaenoriaethau sy'n cynnwys Adroddiad Sefyllfa Adnoddau Naturiol, y Polisi Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal CNC. Mae'n creu cysylltiadau hefyd rhwng y cynnyrch hyn a phrif elfennau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Deddfau Cynllunio.

Maes Gweithredu 2.3: Hyrwyddo, creu a gwella cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig yn ein trefi, ein dinasoedd a'n hardaloedd datblygedig	Tystiolaeth Gweithredu
Cychwyn Menter Pryfed Peillio Trefol i Gymru fel rhan o'r rhaglen waith Pryfed Peillio.	Wedi'i Wneud. Mae Buglife Cymru wedi dablygu Urban Buzz Caerdydd - rhan o brosiect peillio 8 dinas ledled y DU sydd wedi gwella dros 100 o safleoedd ar gyfer peillwyr ledled Caerdydd, gan drafod gydag awdurdodau statudol, ysgolion, grwpiau lleol a chymunedau²⁵. Mae Buglife yn parhau i weithio gyda nifer o awdurdodau lleol gan gynnwys Cyngor Caerdydd a Chyngor Sirol Sir Gaerfyrddin. O dan Brosiect COBWEB²⁶, cafodd dinasyddion fel gwyddonwyr eu recriwtio o'r 3000+ o drigolion ward Penparcau yn Aberystwyth i gofnodi y glöynod byw a'u hadnoddau bwyd gan ddefnyddio technolegau arloesol ar gyfer ffonau symudol ac ar y we. Wedi'u cynllunio ar y cyd â Fforwm Gymunedol Penparcau, cafodd rhywogaethau glöynod byw eu cofnodi yn yr ardal i lywio cynlluniau rheoli lleol ac i gynyddu'r diddordeb a'r dealltwriaeth o bwysigrwydd glöynod byw (a pheillwyr eraill) i iechyd amgylchedd naturiol Cymru. Caiff y data sy'n cael ei gasglu yn ystod yr is-brosiect hwn ei rannu gyda sefydliadau cofnodion biolegol (Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, Canolfannau Cofnodi Lleol) er mwyn helpu i'w dosbarthu a'u defnyddio ar gyfer amrywiol ddibenion o gynllunio i waith ymchwil

²⁵ <https://www.buglife.org.uk/urban-buzz/cardiff>

²⁶ <https://cobwebproject.eu/co-designers/penparcau-community-forum>

	amgylcheddol a gwneud penderfyniadau. Caiff y data a gesglir ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i asesu pa mor addas yw'r mapiau adnodd peillwyr ar raddfa fawr sydd wedi'u modelu i lywio amrywiol gwestiynau polisi. Wedi'i weinyddu gan Cadwch Gymru'n Daclus a'i gefnogi drwy Gronfa Natur Llywodraeth Cymru, mae'r prosiect Swyn Naturiol²⁷ wedi manteisio i'r eithaf ar wasanaethau niferus ecosystem mannau gwyrdd di-haint sy'n cael eu tanbrizio - ardaloedd â'r gwair wedi'i dorri ar ystadau diwydiannol, tir ysgolion ac ysbytai, parciau busnes neu ymylon ffyrdd ar bum lleoliad arddangos ledled Cymru - ac wedi'u trawsnewid yn garped o flodau gwyllt lliwgar, gan ail-greu ein tirweddau dinesig a gwledig a newid delwedd ein trefi, ein dinasoedd a'n ffermydd. Yn ystod oes y prosiect, bydd dros 150 o dalebau canolfannau garddio wedi'u cyflwyno i grwpiau cymunedol ac ysgolion i gefnogi peillwyr, yn ogystal â chodi proffil a gwerth yr ardaloedd hynny i sicrhau manteision niferus, gan helpu i wyrddroi y dirywiad cydnabyddedig yn ein rhywogaethau blodau gwyllt sydd mewn perygl, tra'n cynnig cysylltiad gweledol arbennig iawn â natur i filoedd o bobl. Bydd y prosiect yn galluogi proffil gwenyn a blodau gwyllt, a'u gwasanaethau cysylltiedig fel peillwyr, i lywio dealltwriaeth well o werth natur i bobl.
Edrych ar sut y mae Awdurdodau Lleol yn rheoli ymylon ffyrdd, parciau a mannau gwyrdd cyhoeddus.	Wedi'i Wneud Yn 2017, cynhaliwyd dau seminar i ymarferwyr yn y Gogledd a'r De wedi'u hanelu at lunwyr polisiau a phenderfyniadau sydd angen inni drafod â hwy er mwyn hwyluso'r newidiadau i drefn rheoli ymylon ffyrdd.

²⁷ <https://www.keepwalestidy-cymru.naturalbuzz/cy>

	Bu i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ysgrifennu yn ddiweddar at Brif Weithredwyr Awdurdodau Lleol ledled Cymru i'w hatgoffa o'u hymrwymiaadau a'u cyfrifoldebau tuag at ymylon ffyrdd o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a sut y gall rheoli ymylon ffyrdd hefyd eu helpu i gyrraedd y nodau statudol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Cyngor Sir Conwy, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyrraedd statws Caru Gwenyn. Mae gan Sir Fynwy Gynllun Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Peillwyr ac wedi cynhyrchu cyfres o lyfrynnau canllaw ar gyfer rheolwyr priffyrdd; rheolwyr mannau gwyrdd; penaeithaid; a rheolwyr ystadau cyhoeddus. Drwy Gronfa Natur Llywodraeth Cymru, mae'r prosiect 'Peillwyr am Oes' wedi cysylltu gyda chymunedau ledled Sir Fynwy, Tor-faen, Blaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gydweithio i wella cynefinoedd rhywogaethau peillio tra hefyd yn gwella'r mannau gwyrdd hynny i bobl eu mwynhau. Mae'r prosiect hwn wedi cynnal amrywiol fentrau i hyrwyddo'r broses o reoli adnoddau naturiol yn yr hirdymor yn gynaliadwy.
Hyrwyddo prosiectau a arweinir gan y gymuned i ddwyn budd i bryfed peillio a chymunedau lleol drwy gyfrwng ffrydiau ariannu blynyddol cyfredol megis <i>Trefi Taclus a Lleoedd Tawelach, Gwyrddach a Glanach</i>, a chyda partneriaid: Cadwch Gymru'n	Wedi'i Wneud Trwy Brosiect 'Swyn Naturiol' Cadwch Gymru'n Daclus (gweler uchod), mae nifer o brosiectau dan arweiniad y gymuned wedi'u cynnal sydd wedi gwella proffil peillwyr ledled Cymru.

Daclus, awdurdodau lleol a chymunedau.	Caru Gwenyn / Bee Friendly oedd y cynllun cenedlaethol cydgysylltiedig cyntaf o'i fath ac mae sicrhau bod Cymru yn wlad gyfeillgar i Beillwyr yn ganolog iddynt.²⁸ Mae cyfanswm o ddau-ddeg-wyth o sefydliadau ledled Cymru wedi cyrraedd statws Cyfeillgar i Wenyn ac maent yn cynnal gweithgareddau positif i beillwyr.
Cynnwys arferion cyfeillgar at bryfed peillio o fewn contractau rheoli eiddo masnachol a thirweddu Llywodraeth Cymru.	Wedi'i Wneud Mae gan Lywodraeth Cymru wenynefeydd ar hyn o bryd yn ei swyddfeydd yn Aberystwyth, Merthyr Tudful a Chyffordd Llandudno a bydd cyn bo hir yn gosod gwenynefeydd a gardd wyllt ar do ei adeilad ym Mharc Cathays yng Nghaerdydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â phrosiectau Fferyllol sy'n gysylltiedig â gwenyn²⁹ ym Mhrifysgol Caerdydd er mwyn cael 'cymuned' o wenynefeydd ar draws ardal Cathays o Gaerdydd. Mae rhaglen o blannu blodau gwyllt yn cael ei gynnal ble yn briodol ar draws ystad Llywodraeth Cymru.
Cynnwys canllawiau am bryfed peillio yn yr adolygiad o'r polisi tai cynaliadwy.	Wedi'i Wneud Cafodd dwy seminar gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol Cadw Stoc 'Creu gerddi i bobl a pheillwyr' eu trefnu gan Lywodraeth Cymru yn 2015. Cafodd rhain eu trefnu i ddod â'r sefydliadau a'r gwneuthurwyr polisi perthnasol at ei gilydd i drafod y ffordd orau o greu a gwella cynefinoedd peillwyr a'r manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd niferus a allai ddod o'r gwaith hwn.

²⁸ <http://www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio>

²⁹ <https://www.cardiff.ac.uk/pharmabees>

	Cafodd y seminarau eu cynnal ar y cyd â Cadwch Gymru'n Daclus fel rhan o'r fenter Swyn Naturiol, wedi'i gynnal mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Masnach Garddwriaethol a Mannau Gwyrdd Cymru ac a gafodd ei ariannu gan Gronfa Natur Llywodraeth Cymru. O dan y fenter hon, mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi gweithio mewn partneriaeth â gwahanol sefydliadau, gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, i drawsnewid tir drwy blannu a hau blodau gwyllt i greu cynefinoedd deniadol newydd sy'n dda i bobl a pheillwyr.
Cyfrannu at unrhyw adolygiad o bolisïau a chanllawiau trafndiaeth Llywodraeth Cymru ac at Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystâd Gefnffyrdd gydag arweiniad ar gyfer rheoli pryfed peillio.	Wedi'i Wneud Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth bryd hynny y fenter 'Blodau Gwyllt ar Ymylon Ffyrdd'. Mae'r fenter o dan arweiniad swyddogion yn yr adran Drafnidiaeth ac yn cael ei darparu gan Asiantaethau Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Ers cyhoeddi'r fenter yn 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros 40 o brosiectau ymylon ffyrdd, yn amrywio o wella dulliau o gynnal a chadw i annog cymunedau o flodau gwylltion sy'n bodoli ar hyn o bryd i ffynnu a lledaenu (e.e. tegeirian gwyllt ar yr A40 yn Llandeilo), i fedi hadau blodau gwylltion o safleoedd rhoddwyr a hau ar ymylon ffyrdd (e.e. ar yr A487 ym Maentwrog). Mae Buglife a phartneriaid wedi cynhyrchu map llinellau gwenyn ar gyfer De a Gorllewin Cymru³⁰. Maent hefyd yn gweithio gydag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i ddatblygu prosiect mapio llinellau gwenyn ar gyfer

³⁰ <https://www.buglife.org.uk/b-lines-hub/wales>

	canolbarth a Gogledd Cymru.
--	-----------------------------

Maes Gweithredu 3.1:	Tystiolaeth Gweithredu
Cefnogi gweithredoedd y DU i hyrwyddo poblogaethau iach o bryfed peillio yng Nghymru	
Parhau i gefnogi'r Cynllun Gwenyn Iach ac ariannu'r Uned Wenyn Genedlaethol.	Wedi'i Wneud Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU i gefnogi'r Uned Wenyn Genedlaethol i ddarparu y Rhaglen Iechyd Gwenyn yng Nghymru i sicrhau poblogaeth gynaliadwy a iach o wenyn mêl ar gyfer peillio a chynhyrchu mêl yn y DU.
Gweithio gyda'r Uned Wenyn Genedlaethol a Defra i ddatblygu cynllun wrth gefn cyfredol Cymru a Lloegr ar gyfer plâu egrotig a chlefydau gwenyn mêl.	Wedi'i Wneud Caiff cynlluniau wrth gefn ar gyfer plâu egrotig eu cyhoeddi ar BeeBase ³¹ . Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda chydweithwyr APHA a Defra i hyrwyddo gwyliadwriaeth well o glefydau gwenyn ymysg ceidwaid gwenyn yng Nghymru.
Cefnogi gwenynwyr a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth cysylltiedig o dan y Cynllun Datblygu Gwledig.	Wedi'i Wneud Cymorth a chynghor (ble yn briodol) ar gael drwy'r prosiectau sy'n cael eu hariannu o dan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag APHA a NBU wrth gynnal poblogaethau gwenyn iach yng Nghymru.
Defnyddio rhaglenni marchnata i roi cymorth i gynhyrchwyr mêl.	Wedi'i Wneud Mae cymorth wedi'i roi i gynhyrchwyr mêl drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.
Ymgysylltu â'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar	Wedi'i Wneud Mae swyddogion yn cydweithio'n agos â

³¹ <http://www.nationalbeeunit.com/index.cfm?pageid=206>

gyfer Plaladdwyr.	chydweithwyr yn y tîm rhywogaethau Estron Goresgynol ynghylch neonicotinoidiaid a'u heffaith ar beillwyr.
-------------------	---

Maes Gweithredu 4.1: Gweithio i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd pryfed peillio a chynnwys pobl Cymru yn y gwaith o'u rheoli	Tystiolaeth Gweithredu
Creu Cynllun Cyfathrebu fel rhan o'r rhaglen waith ar gyfer Pryfed Peillio.	Wedi'i Wneud Caiff gweithgareddau gan bryfed peillio eu cyhoeddi'n rheolaidd ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol Gweinidogion. Mae swyddogion yn cysylltu'n rheolaidd â chydweithwyr ar dîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru i hyrwyddo gweithgarwch pryfed peillio.
Sefydlu gwefan i ganoli gwybodaeth, a hybu arfer gorau ym maes pryfed peillio. Bydd gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn lletya hyn i ddechrau.	Wedi'i Wneud. Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn parhau i gynnal dogfennau atodol APP a Caru Gwenyn³², ac wedi cynnwys rhestr wedi'i hargymell o blanhigion cyfeillgar i Wenyn.
Gwella gwybodaeth a chyfleusterau mewn ysgolion am bryfed peillio a'u pwysigrwydd, drwy ddefnyddio rhaglen Eco-Sgolion yng Nghymru i ddechrau.	Wedi'i Wneud Wedi'i weinyddu gan Cadwch Gymru'n Daclus, mae'r rhaglen Eco-Sgolion yn fenter bwysig yn rhyngwladol, sy'n cynnig fframwaith delfrydol i gefnogi datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn ysgolion. Mae Eco-Sgolion yn ymestyn y dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac yn datblygu dinasyddiaeth gyfrifol gartref ac yn y gymuned yn ehangach. Mae'r rhaglen Eco-Sgolion wedi gwneud gwaith gwerthfawr wrth hyrwyddo a chodi proffil Caru Gwenyn.
Hyrwyddo canllawiau arfer da gydag Awdurdodau Lleol, rheolwyr tir a'r cyhoedd a gweithio gyda	Wedi'i Wneud Mae Buglife Cymru hefyd wedi cynhyrchu canllaw i awdurdodau lleol ar sut i greu/gwella

³² <http://www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio>

cynlluniau gwobrwyo i hyrwyddo arferion er lles pryfed peillio, gan adeiladu ar waith blaenorol.	cynlluniau/strategaethau pryfed peillio ac yn gweithio gyda nifer o awdurdodau lleol gan gynnwys Cyngor Caerdydd a Chyngor Sirol Sir Gaerfyrddin.
Hyrwyddo arferion sydd o les i bryfed peillio ymhlith ffermwyr drwy Gwlad a rhaglen trosglwyddo gwybodaeth Cyswllt Ffermio.	Wedi'i Wneud Mae canllawiau wedi'u cynhyrchu hefyd i berchnogion tir ar reoli tir ffermio drwy Cyswllt Ffermio.